Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygiad: Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2016-2017

5 Gorffennaf 2017 Rhif Refeniw 8

| Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Cynllunio Datblygiad i Lywodraeth Cymru:<br>Asesiad Perfformiad Ymgyngoreion Arbenigol | | |
|---|---|---|
| Hanes Fersiwn y Ddogfen | | |
| Fersiwn y Ddogfen | Dyddiad Cyhoeddi | Statws |
| 1.0 | 28 Ebrill 2017 | Dogfen ddrafft a luniwyd gan yr adran Tystiolaeth, Polisi a Trwyddedu a thimau Cynllunio Datblygiad Gweithredol |
| 2.0 | 6 Mehefin 2017 | Dogfen ddrafft wedi'i hadolygu gan Fwrdd Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru |
| 3.0 – 6.0 | 23 Mehefin 2017 | Dogfen derfynol wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru |
| 7.0 | 1 Gorffennaf 2017 | Cyhoeddi'r Adroddiad |
| 8.0 | 5 Gorffennaf 2017 | Cyhoeddi'r Adroddiad (gyda chywiriad ffeithiol) |

## Cyswllt ar gyfer ymholiadau ac adborth

Tîm Tystiolaeth, Cynllunio a Thrwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif berchennog y ddogfen. E-bost: EPP.Planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

# Crynodeb Gweithredol

### Ein gweledigaeth yw bod yn falch o arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ymgynghorai arbenigol yn y broses o reoli datblygiad. Golyga hyn y dylai ymgeiswyr ac awdurdodau sy'n pennu ceisiadau cynllunio ymgynghori â ni ar gynlluniau arfaethedig sy'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf lle y nodir ni fel ymgynghorai arbenigol. Pan ymgynghorir â ni, mae angen i ni ddarparu ymateb o sylwedd o fewn yr amserlenni a ragnodwyd.

Mae hefyd angen i ni, fel ymgynghorai arbenigol, ddarparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru sy'n nodi ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd o fewn amserlenni statudol neu gytunedig. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynrychioli ein hadroddiad cyntaf i Weinidogion Cymru ac mae'n nodi ein perfformiad ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cawsom 8,093 o ymgynghoriadau cynllunio a gwnaethom gyflwyno cyfanswm o 7,583 o ymatebion o sylwedd, a chyflwynwyd 95% o'r rhain o fewn yr amserau cau rhagnodedig.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adran 1.0 Cyflwyniad** | 6 |
| **1.1 Ein Gwasanaeth Cynllunio Datblygiad** | 6 |
| **1.2 Gofynion adrodd blynyddol rheoli datblygu** | 6 |
| **1.3 Prif faterion yn y flwyddyn adrodd** | 7 |
| **1.4 Cyfyngiadau** | 7 |
| **Adran 2.0 Ein Hasesiad o Berfformiad** | 9 |
| **2.1 Trosolwg o berfformiad** | 9 |
| **2.2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)** | 10 |
| 2.2.1 Trosolwg o berfformiad | 10 |
| 2.2.2 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriad cyn-ymgeisio | 11 |
| 2.2.3 Cyfanswm yr ymgynghoriadau cyn-ymgeisio a ddaeth i law | 11 |
| 2.2.4 Cyfanswm yr ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriadau cyn-ymgeisio | 12 |
| 2.2.5 Amserlenni ar gyfer darparu ymateb i ymgynghoriad cyn-ymgeisio | 12 |
| 2.2.6 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu allan i'r 28 o ddiwrnodau neu gyfnod amser arall y cytunwyd arno | 13 |
| 2.2.7 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod arall y cytunwyd arno | 13 |
| **2.3 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol cyn caniatáu cais cynllunio** | 13 |
| 2.3.1 Cyfanswm yr ymgynghoriadau a ddaeth i law | 14 |
| 2.3.2 Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd | 14 |
| 2.3.3 Pryd y cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd i awdurdodau cynllunio lleol | 14 |
| 2.3.4 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod arall y cytunwyd arno | 15 |

2.3.5 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod arall y cytunwyd arno 15

**2.4 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016** 17

2.4.1 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau cyn-ymgeisio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ymgynghoriadau gan Weinidogion Cymru cyn caniatáu cais cynllunio 17

2.4.2 Cyfanswm yr ymgynghoriadau a ddaeth i law 17

2.4.3 Cyfanswm yr ymatebion a gyflwynwyd 18

2.4.4 Pryd cafodd yr ymateb ei gyflwyno i'r ymgynghorydd 18

2.4.5 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod arall y cytunwyd arno a chrynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno'r ymatebion y tu allan i gyfnod o amser 19

**Adran 3.0 Ystyriaeth** 20

## Atodiadau

Atodiad 1 Ein rôl mewn cynllunio gwlad a thref 23

Atodiad 2 Categorïau'r rhesymau dros ymateb y tu allan i'r amserlenni a ragnodwyd 31

Atodiad 3 Tablau crynhoi asesiadau 32

## Ffigurau

Ffigur 1 Perfformiad Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru 9

Ffigur 2 Cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn amser 10

Ffigur 3 Cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn amser 12

Ffigur 4 Pryd cafodd yr ymateb ei gyflwyno 12

Ffigur 5 Cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn amser 14

Ffigur 6 Pryd cafodd yr ymateb ei gyflwyno 14

Ffigur 7 Rheswm dros ymateb y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod y cytunwyd arno 16

Ffigur 8 Cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn amser 18

Ffigur 9 Pryd cafodd yr ymateb ei gyflwyno 18

## Tablau

Tabl 1 Pryd i ymgynghori â CNC 29

Tabl 2 Categorïau 31

Tabl 3 Crynodeb o asesiadau ar gyfer ymgynghoriad cyn-ymgeisio a’r ymatebion (Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)) 32

Tabl 4 Crynodeb o asesiadau ar gyfer ymgynghoriadau cyn caniatáu cais cynllunio a’r ymatebion (Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)) 33

Tabl 5 Crynodeb o resymau 15

Tabl 6 Crynodeb o asesiadau ar gyfer ymgynghoriadau cyn-ymgeisio ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a’r ymatebion (Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016) 34

Tabl 7 Crynodeb o asesiadau ar gyfer ymgynghoriadau ar geisiadau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol a’r ymatebion (Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016) 35

Ffynonellau gwybodaeth 36

# Adran 1.0 Cyflwyniad

### 1.1 Ein Gwasanaeth Cynllunio Datblygiad

Rydym yn ymgynghorai statudol neu arbenigol o fewn y system gynllunio, yn ystod y broses o lunio cynllun datblygu ac yn ystod y broses o wneud cais cynllunio. Ein prif rôl yw darparu cyngor ar sut ddylai polisïau cynllunio a chynigion datblygu amddiffyn a gwella'r amgylchedd a chaniatáu i adnoddau naturiol gael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu gwybodaeth am ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd i bob ymgynghoriad ar gais cynllunio ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

### 1.2 Gofynion adrodd blynyddol rheoli datblygu

Mae'n ofynnol i ni, fel ymgynghorai arbenigol, gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru erbyn 1 Gorffennaf bob blwyddyn, a fydd yn adrodd ar ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriadau rheoli datblygu o fewn amserlenni statudol a rhagnodedig.

Mae ein gofynion adrodd wedi'u nodi yn y canlynol:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012;[1] a
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016[2]

Yn Atodiad 1, darperir mwy o fanylion ynghylch gofynion adrodd, yn unol â'r hyn a nodir yn y Gorchmynion hyn.

Ymgynghorir â ni hefyd am ein cyngor ar geisiadau cynllunio ar gyfer cynllun sy'n bodloni'r meini prawf yr ydym yn ymgynghorai arbenigol o dan y Gorchmynion uchod. Er enghraifft, ymgynghorir â ni ar gynlluniau a allai effeithio ar dirweddau gwarchodedig neu rywogaethau a warchodir yn statudol. Rydym wedi datblygu Rhestr Wirio Blaenoriaethu Rheoli Datblygu,[7] sy'n nodi pryd yr ydym eisiau i awdurdodau ac ymgeiswyr cynllunio ymgynghori â ni. Mae ein rhestr wirio yn adlewyrchu ein dyletswyddau fel ymgynghorai arbenigol, a hefyd ein dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol eraill. Caiff ein rôl yn y broses o wneud cais cynllunio ei hegluro ymhellach yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## 1.3 Prif faterion yn y flwyddyn adrodd

Gwnaeth y flwyddyn adrodd gyd-daro â newidiadau mawr i'r system gynllunio, gyda chyfrifoldebau newydd yn cael eu nodi i wasanaethau cynghori ar gynllunio datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae hyn yn cynnwys cyflwyno proses ymgeisio newydd ar gyfer 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol', yr ydym yn ymgynghorai arbenigol ar eu cyfer, ac, yn rhinwedd y swydd honno, mae angen i ni ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriadau gan ymgeiswyr a Gweinidogion Cymru fel y bo'n briodol.

Mae'r cyfnod adrodd, felly, wedi cyd-daro â chyfnod pan oedd angen i ni gyfarwyddo ein hunain â'r newidiadau hyn, a sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau i gwsmeriaid. Un anhawster yr oeddem yn ei wynebu oedd y ffaith y byddai ymarferoldeb ein systemau cymorth TGCh cyfredol yn effeithio ar ein gallu i adrodd ar yr holl feini prawf yr oedd angen eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol.  Caiff hyn ei egluro ymhellach yn Adran 1.4 isod.

Yn ogystal â'n dyletswyddau statudol, rydym hefyd wedi darparu cyngor i'n cwsmeriaid ar ffurf cyngor yn ôl disgresiwn yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio. Er ein bod yn cydnabod buddion y gwasanaeth hwn, mae ein gallu i ddarparu cyngor o'r fath wedi'i effeithio gan bwysau ar ein cymorth grant. Felly, rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn darparu'r cyngor hwn. Ers mis Ebrill 2017, rydym wedi rhoi Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Dewisol ar waith, lle y mae cyngor penodol ar gael am dâl. Cynigir y gwasanaeth hwn fel un gwirfoddol, sy'n golygu nad oes unrhyw rwymedigaeth ar gwsmeriaid i ddefnyddio'r gwasanaeth.

## 1.4 Cyfyngiadau

Nodir yr wybodaeth sydd angen ei chynnwys mewn adroddiad blynyddol yn y Gorchymyn Rheoli Datblygu perthnasol. Fodd bynnag, mae ein gallu i adrodd ar yr holl feini prawf a nodwyd yn dibynnu ar ymarferoldeb cyfredol ein systemau cymorth TGCh. Felly, caiff ein gwaith adrodd ei ddylanwadu gan y ffactorau canlynol:

- Ymgynghorir â ni ar faterion nad ydynt wedi'u rhestru yn y Gorchmynion Rheoli Datblygu. Nid yw'r rhain yn cael eu cofnodi ar wahân ar ein system gymorth TGCh. Mae'r adroddiad blynyddol hwn felly yn darparu data ar yr holl ymgynghoriadau rheoli datblygu a ddaeth i law, waeth a ydynt yn bodloni'r meini prawf yr ydym yn 'ymgynghorai arbenigol' ar eu cyfer neu beidio.
- Nid ydym yn gwahaniaethu rhwng ymgynghoriadau cyn-ymgeisio statudol ac anstatudol ar ein system gymorth TGCh ar hyn o bryd. Felly, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu data ar yr holl ymgynghoriadau cyn-ymgeisio a ddaeth i law ac a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adrodd.
- Nid ydym yn gwahaniaethu rhwng ymgynghoriadau sy'n ymwneud â datblygiadau mawr ac ymgynghoriadau sy'n ymwneud â ffurfiau datblygu eraill ar ein system gymorth TGCh ar hyn o bryd. Felly, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyfuno'r ffigurau ar gyfer ymgynghoriadau o'r fath (heb gynnwys Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, a gaiff eu hadrodd ar wahân).

- Caiff ymgynghoriadau ar gais cynllunio a gyflwynir fel 'caniatâd eilaidd' mewn cysylltiad â Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cofnodi fel ymgynghoriad Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.
- Nid yw ein system TGCh yn caniatáu i ni gofnodi'r rheswm dros gyflwyno ymateb o sylwedd y tu allan i ddyddiad cau ar hyn o bryd. Ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn, rydym wedi adolygu sampl o ymatebion o'r fath ac wedi adrodd ar y prif resymau a ddarparwyd.


Rydym wedi adolygu ein system TGCh yn ddiweddar er mwyn gwella ymarferoldeb ein cofnodi. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi pa ddata ychwanegol byddwn yn ei gipio ar gyfer adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

# Adran 2.0 Ein Hasesiad o Berfformiad

## 2.1 Trosolwg o berfformiad

Gweler ein perfformiad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017, yn Ffigur 1.

**Ffigur 1 Ein Perfformiad Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio**



Yn ystod y cyfnod adrodd, mae cyfanswm o 8,093 o ymgynghoriadau ar reoli datblygu wedi dod i law.   O'r rheini, roedd 899 ohonynt yn ymgynghoriadau cyn-ymgeisio, a daeth 7,194 o ymgynghoriadau i law gan awdurdodau penderfynu cyn y rhoddwyd caniatâd.

Gwnaethom ymateb i gyfanswm o 7,993 o ymgynghoriadau.  Gwnaethom gyflwyno 7,583 o ymatebion o sylwedd o fewn y dyddiad cau statudol neu ddyddiad cau arall y cytunwyd arno. Cyflwynwyd 410 o ymatebion i ymgynghoriadau y tu allan i'r dyddiadau cau statudol neu ddyddiadau cau eraill y cytunwyd arnynt.   Felly, cyflwynwyd 95% o'n hymatebion i ymgynghoriadau o fewn y dyddiadau cau statudol neu ddyddiadau cau eraill y cytunwyd arnynt.


Noder bod y gwahaniaeth rhwng yr ymgynghoriadau a ddaeth i law a'r ymatebion a gyflwynwyd yn dangos gwaith sydd ar droed, lle y mae'r dyddiadau cau a ragnodwyd yn syrthio o fewn y cyfnod adrodd nesaf.

## 2.2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)

### 2.2.1 Trosolwg o berfformiad

Mae'r adran hon yn nodi ein perfformiad o ran darparu ymateb o fewn dyddiadau cau a ragnodwyd ar gyfer pob cais cynllunio (heblaw am y rhai sy'n ymwneud â Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol).  Darperir rhagor o wybodaeth yn Nhablau 3 a 4 yn Atodiad 3 yr adroddiad blynyddol hwn.

**Ffigur 2 Cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn amser**




Dangosir cyfran yr ymatebion o sylwedd a anfonwyd o fewn yr amserlenni a ragnodwyd yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn Ffigur 2.

Daeth cyfanswm o 8,091 o ymgynghoriadau i law, a gwnaethom gyflwyno 7,991 o ymatebion o sylwedd. Ymatebwyd i 7,581 (95%) o'r rhain o fewn yr amser statudol neu o fewn cyfnod y cytunwyd arno. Cyflwynwyd 410 o ymatebion i ymgynghoriadau y tu allan i'r dyddiadau cau hyn.

### 2.2.2 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriad cyn-ymgeisio

Mae angen i ni adrodd ar y mesurau canlynol ar gyfer ymgynghoriadau cyn-ymgeisio:

(a) Nifer yr adegau yr ymgynghorwyd â ni;
(b) Nifer yr adegau y darparwyd ymateb o sylwedd;
(c) Pryd y darparwyd yr ymateb o sylwedd;
(ch) Nifer yr adegau y gwnaethom gyflwyno ymateb o sylwedd y tu allan i'r cyfnod a ragnodwyd neu a gytunwyd fel arall; a
(d) Crynodeb o'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn amser a ragnodwyd.

Mae gennym ddyletswydd i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad cyn-ymgeisio ar ddatblygiad mawr (fel yr eglurir yn Atodiad 1) o fewn 28 o ddiwrnodau (gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad angenrheidiol) neu o fewn cyfnod arall a gytunwyd â'r ymgeisydd.

Rydym yn derbyn ac yn darparu ymatebion i ystod eang o ymgynghoriadau cyn-ymgeisio. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriadau cyn-ymgeisio a gyflwynir o dan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd), yn ogystal ag ymgynghoriadau cyn-ymgeisio dewisol. Gan ystyried ymarferoldeb ein systemau TGCh, nid ydym yn gwahaniaethu rhwng ymgynghoriadau cyn-ymgeisio statudol ac anstatudol ar hyn o bryd wrth gofnodi'r ymgynghoriadau hyn. Mae'r adroddiad blynyddol hwn felly yn darparu data ar bob ymgynghoriad cyn-ymgeisio a ddaeth i law ac a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adrodd, waeth a ydynt yn ymgynghoriadau statudol neu'n rhai dewisol.


Rydym wedi adolygu ein systemau TGCh yn ddiweddar, ac yn bwriadu darparu data penodol ar ymgynghoriadau cyn-ymgeisio statudol mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

### 2.2.3 Cyfanswm yr ymgynghoriadau cyn-ymgeisio a ddaeth i law

Cawsom 898 o ymgynghoriadau cyn-ymgeisio yn ystod y cyfnod adrodd.

### 2.2.4 Cyfanswm yr ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriadau cyn-ymgeisio


**Ffigur 3 Cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn amser**




Gwnaethom gyflwyno cyfanswm o 831 o ymatebion o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau neu o fewn cyfnod arall y cytunwyd arno, sy'n cynrychioli 93% o gyfanswm yr ymatebion cyn-ymgeisio a anfonwyd.

### 2.2.5 Amserlenni ar gyfer darparu ymateb i ymgynghoriad cyn-ymgeisio

**Ffigur 4 Pryd cafodd yr ymateb ei gyflwyno**




*Nifer yr ymatebion o fewn 28 o ddiwrnodau*
Gwnaethom ddarparu ymateb i 773 o ymgynghoriadau cyn-ymgeisio (86%) o fewn 28 o ddiwrnodau.

*Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn cyfnod estynedig o amser y cytunwyd arno*
Gwnaethom ymateb i 58 o ymgynghoriadau cyn-ymgeisio (7%) o fewn cyfnod estynedig o amser y cytunwyd arno.

### 2.2.6 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu allan i'r 28 o ddiwrnodau neu gyfnod amser arall y cytunwyd arno

Cyflwynwyd 67 o ymatebion i ymgynghoriadau cyn-ymgeisio (7%) y tu allan i'r 28 o ddiwrnodau neu gyfnod arall y cytunwyd arno.

### 2.2.7 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod arall y cytunwyd arno

Fel rhan o'n dadansoddiad, nid ydym wedi asesu'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn y dyddiadau cau a ragnodwyd ar gyfer y flwyddyn adrodd hon. Nid yw ymarferoldeb ein systemau TGCh cyfredol yn ein galluogi ni ar hyn o bryd i nodi pa ymgynghoriadau cyn-ymgeisio a ddaeth i law o dan y weithdrefn statudol a pha rai a ddaeth i law o dan y weithdrefn ddewisol. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o'n systemau cymorth TGCh, rydym yn bwriadu cofnodi nifer yr ymgynghoriadau cyn-ymgeisio a ddaw i law mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

## 2.3 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol cyn caniatáu cais cynllunio

Mae'r adran hon yn nodi ein perfformiad o ran darparu ymateb i awdurdodau cynllunio lleol ar geisiadau cynllunio o fewn dyddiadau cau a ragnodwyd.

Mae'n rhaid i ni adrodd ar y canlynol ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol:

- (a) Nifer yr adegau yr ymgynghorwyd â ni;
- (b) Nifer yr adegau y darparwyd ymateb o sylwedd;
- (c) Nifer yr adegau y rhoesom ymateb o sylwedd y tu allan i amser a ragnodwyd neu gyfnod y cytunwyd arno fel arall; ac
- (ch) Crynodeb o'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn amser a ragnodwyd.

Nid yw'r Gorchymyn Rheoli Datblygu yn cynnwys y dangosydd 'pryd y darparwyd yr ymateb o sylwedd'.

Mae gennym ddyletswydd i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad gan awdurdod cynllunio lleol o fewn 21 o ddiwrnodau (gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad angenrheidiol) neu'n gynt neu o fewn cyfnod arall y cytunwyd yn ysgrifenedig â'r ymgynghorydd, sef awdurdod cynllunio lleol.


Oherwydd ymarferoldeb cyfredol ein systemau TGCh, nid ydym yn gwahaniaethu ar hyn o bryd rhwng ymgynghoriadau sy'n ymwneud â datblygiad mawr ac ymgynghoriadau sy'n ymwneud â ffurfiau datblygu eraill. Felly, mae'r adran hon yn darparu ffigurau cyfunol ar gyfer pob cais cynllunio gan awdurdodau cynllunio lleol. Fodd bynnag, o ganlyniad i adolygiad diweddar o'n systemau cymorth TGCh, rydym yn bwriadu darparu data ar ymgynghoriadau ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â datblygiad mawr mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

### 2.3.1 Cyfanswm yr ymgynghoriadau a ddaeth i law

Rydym wedi derbyn cyfanswm o 7,193 o ymgynghoriadau rheoli datblygu gan awdurdodau cynllunio lleol yn ystod y cyfnod adrodd.

### 2.3.2 Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd


**Ffigur 5 Cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn amser**




Gwnaethom gyflwyno cyfanswm o 6,750 o ymatebion o sylwedd o fewn y cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau neu o fewn cyfnod arall y cytunwyd arno, sy'n cynrychioli 95% o gyfanswm yr ymatebion a gyflwynwyd gennym ni.

### 2.3.3 Pryd y cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd i awdurdodau cynllunio lleol

**Ffigur 6 Pryd cafodd yr ymateb ei gyflwyno**



*Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn 21 o ddiwrnodau*
Gwnaethom gyflwyno 6,149 o ymatebion (87% o gyfanswm yr ymatebion) o fewn y cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau.

*Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn cyfnod estynedig o amser y cytunwyd arno*
Gwnaethom ymateb i 601 o ymgynghoriadau (8% o gyfanswm yr ymatebion) o fewn cyfnod estynedig o amser y cytunwyd arno.


### 2.3.4 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod arall y cytunwyd arno
Cyflwynwyd 343 o ymatebion (5% o gyfanswm yr ymatebion) y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod estynedig o amser y cytunwyd arno.

### 2.3.5 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod arall y cytunwyd arno
Fel rhan o'n dadansoddiad, rydym wedi adolygu 34 o ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu allan i ddyddiadau cau a ragnodwyd ac wedi nodi'r rhesymau hynny dros beidio ag ymateb o fewn y dyddiad cau. Caiff crynodeb o'r prif resymau eu hadrodd yn Nhabl 5. Mae Atodiad 2 yn darparu rhagor o fanylion ar y categorïau a nodwyd.

**Tabl 5 Crynodeb o resymau**

| Rheswm dros ymateb y tu allan i gyfnodau o amser a ragnodwyd | Nifer yr ymatebion | Canran o'r ymatebion |
|---:|---:|---:|
| Gwybodaeth annigonol | 6 | 18 |
| Cynnig datblygu cymhleth | 4 | 12 |
| Newidiadau i'r busnes a chyfyngiadau adnoddau | 12 | 35 |
| Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth | 12 | 35 |
| Cyfanswm | 34 | 100 |

### Ffigur 7 Rheswm dros ymateb y tu allan i'r amser a ragnodwyd, neu’r cyfnod y cytunwyd arno




O'r 34 o achosion a adolygwyd:

- Cyflwynwyd 35% ohonynt y tu allan i'r dyddiadau cau statudol neu gytunedig o ganlyniad i gyfyngiadau TGCh, neu am fod ein gwybodaeth wedi'i chofnodi'n anghywir.
- Cyflwynwyd 35% ohonynt y tu allan i'r dyddiadau cau statudol neu gytunedig o ganlyniad i bwysau ar adnoddau mewnol (e.e. y staff arbenigol oedd ar gael i ddarparu cyngor arbenigol).
- Cyflwynwyd 18% ohonynt y tu allan i'r dyddiadau cau statudol neu gytunedig am fod gwybodaeth annigonol wedi'i chyflwyno o blaid ymgynghoriad i'n galluogi ni i ymateb yn llawn.
- Cyflwynwyd 12% ohonynt y tu allan i'r dyddiadau cau statudol neu gytunedig oherwydd cymhlethdod y cynllun, a oedd yn gofyn am arfarniad manwl o risgiau amgylcheddol sylweddol posibl.

## 2.4 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

Mae'r adran hon yn nodi ein perfformiad o ran darparu ymateb o fewn dyddiadau cau a ragnodwyd ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Gellir gweld tablau cryno o'n hasesiad yn Atodiad 3.

### 2.4.1 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau cyn-ymgeisio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ymgynghoriadau gan Weinidogion Cymru cyn caniatáu cais cynllunio

Mae'n rhaid i ni adrodd ar y canlynol ar gyfer ymgynghoriadau cyn-ymgeisio ac ymgynghoriadau a gyflwynir i ni gan Weinidogion Cymru ar gyfer ymgynghoriadau cyn rhoi caniatâd cynllunio:

(a) Nifer yr adegau yr ymgynghorwyd â ni;
(b) Nifer yr adegau y darparwyd ymateb o sylwedd;
(c) Pryd y darparwyd yr ymateb o sylwedd;
(ch) Nifer yr adegau y gwnaethom gyflwyno ymateb o sylwedd y tu allan i'r cyfnod a ragnodwyd neu a gytunwyd fel arall; a
(d) Crynodeb o'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn amser a ragnodwyd.

Mae gennym ddyletswydd i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad cyn-ymgeisio Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn 42 o ddiwrnodau (gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad angenrheidiol) neu o fewn cyfnod arall y cytunwyd arno yn ysgrifenedig â'r ymgynghorydd.

Mae gennym ddyletswydd i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru o fewn 21 o ddiwrnodau (gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad angenrheidiol) neu o fewn cyfnod arall y cytunwyd arno yn ysgrifenedig â'r ymgynghorydd.


Nid ydym wedi cofnodi unrhyw ymgynghoriadau caniatâd eilaidd ar gyfer y flwyddyn adrodd hon oherwydd nid oes unrhyw geisiadau ffurfiol wedi dod i law.


### 2.4.2 Cyfanswm yr ymgynghoriadau a ddaeth i law

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o ddau ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol:  un ymgynghoriad ar y cyfnod cyn-ymgeisio ac un ymgynghoriad ar gyfer y cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol dilynol.

## 2.4.3 Cyfanswm yr ymatebion a gyflwynwyd

### Ffigur 8 Cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn amser









Gwnaethom ddarparu un ymateb o sylwedd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn-ymgeisio ac un ymateb o sylwedd i'r awdurdod penderfynu yn ystod y cyfnod adrodd.

## 2.4.4 Pryd cafodd yr ymateb ei gyflwyno i'r ymgynghorydd

### Ffigur 9 Pryd cafodd yr ymateb ei gyflwyno






*Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriad cyn-ymgeisio o fewn y cyfnod statudol o 42 o ddiwrnodau neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno*

Gwnaethom ddarparu ymateb o sylwedd i un ymgynghoriad cyn-ymgeisio Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn y cyfnod statudol o 42 o ddiwrnodau. Gwnaethom gyflwyno ymateb ym mis Mai 2016.

*Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd i'r awdurdod penderfynu o fewn cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau neu o fewn cyfnod arall o amser y cytunwyd arno*

Gwnaethom ddarparu un ymateb o sylwedd i'r awdurdod penderfynu o fewn cyfnod estynedig cytunedig o 40 o ddiwrnodau. Gwnaethom gyflwyno ymateb ym mis Chwefror 2017.

### 2.4.5 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu allan i'r amser a ragnodwyd neu gyfnod arall y cytunwyd arno, a chrynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno'r ymatebion y tu allan i gyfnod o amser

Nid yw'r dangosydd hwn yn briodol oherwydd cyflwynwyd ein hymatebion o sylwedd o fewn amser statudol neu gyfnod estynedig o amser y cytunwyd arno.

## Adran 3.0 Ystyriaeth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i wella ei wasanaeth cynghori ar gynllunio datblygiad yn barhaus. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn ddiamwys ac yn gyson er mwyn cynorthwyo datblygwyr ac awdurdodau penderfynu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae barn ein cwsmeriaid a'n partneriaid yn bwysig i ni wrth i ni weithio i wella ein gwasanaeth.

Mae CNC wedi cynnal arolwg o awdurdodau cynllunio lleol er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaeth cynghori ar gynllunio datblygiad yr ydym yn ei ddarparu.[9] Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf yn ystod 2016 a defnyddiwyd canlyniadau'r gwaith hwn i lywio'r gwelliannau i'n gwasanaeth cynghori ar gynllunio.

Mae rhai o'r prif ganfyddiadau o'r arolwg at ddibenion rheoli datblygu yn cynnwys:

- Gwelliant cyffredinol: Nododd 80% o'r ymatebwyr bod cyngor CNC wedi cyfrannu at bennu achos yr oeddent wedi ymdrin ag ef yn ystod y deuddeg mis diwethaf.
- Gwerth a ychwanegwyd gan gyngor CNC: Nododd 80% o ymatebwyr fod cyngor CNC yn ychwanegu gwerth i'r broses o bennu ceisiadau cynllunio trwy ddarparu cyngor ymarferol a chlir sy'n helpu i osgoi a/neu leihau effeithiau niweidiol.
- Ymgysylltiad cynnar: Nododd 15% o ymatebwyr nad oedd ymgysylltu â CNC yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio yn syml. Credai 25% o'r ymatebwyr nad oedd cyngor CNC bob amser yn glir o ran yr wybodaeth yr oedd ei hangen i gefnogi cais cynllunio.
- Dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau: Roedd 60% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan bod CNC yn mabwysiadu dull sy'n gymesurol â'r risgiau cysylltiedig a'i fod hefyd yn perfformio'n dda o ran helpu i leihau'r risgiau hyn. Dim ond 20% o'r ymatebwyr a nododd nad oedd cyfathrebiadau CNC bob amser yn glir.
- Eglurder y cyngor: Nododd 70% o'r ymatebwyr fod CNC yn rhoi digon o wybodaeth iddynt i allu gwneud penderfyniadau rhesymol a nododd mwy na 60% o'r ymatebwyr fod cyngor CNC yn gyson ar draws gwahanol gyfnodau cynllun.
- Tryloywder: Nododd 60% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno neu yn cytuno'n gryf fod y rhesymau dros feirniadaethau CNC wedi'u nodi'n rhesymegol. Roedd dros 70% o ymatebwyr hefyd yn hyderus y gallent gael eglurhad pellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru pe bai angen.
- Amserau ymateb: Mae gwahaniaeth rhwng canfyddiadau ein cwsmeriaid o amseroldeb ein hymatebion a'r canlyniadau gwirioneddol. Credai 42% o'r ymatebwyr nad oedd CNC yn bodloni'r dyddiadau cau statudol a/neu gytunedig ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau, ond gwnaeth y data a gasglwyd gennym ni ar wahân ar amseroldeb roi darlun mwy cadarnhaol, gyda mwy na 90% o'r ymatebion yn cael eu darparu o fewn dyddiadau cau statudol.
- Boddhad cyffredinol: Mae 37% o'r ymatebwyr yn fodlon a 42% ohonynt yn fodlon i raddau â'r gwasanaeth a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i nifer o gamau gweithredu ar gyfer gwella o ganlyniad i farn yr ymatebwyr, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Boddhad cyffredinol, gwelliant cyffredinol ac ymgysylltu'n gynnar: Mae CNC wedi canfod bod angen gwella'i fewnbwn yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio. Rydym wedi rhoi Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Dewisol ar waith eleni, sy'n caniatáu i ni adennill costau ar gyfer cyngor anstatudol.
- Gwerth a ychwanegwyd gan gyngor CNC: Er bod canlyniadau'r arolwg yn galonogol, ein nod yw cael dealltwriaeth well o'n cwsmeriaid a lle'r ydym yn ychwanegu'r gwerth mwyaf yn eu tyb nhw. Bydd yr wybodaeth fanwl hon yn rhan o arolygon y dyfodol ac, os y'i darperir, gallai helpu CNC i wybod lle i ganolbwyntio ei ymdrechion.
- Dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau: Rydym yn bwriadu gwella eglurder yr ymatebion trwy ddefnyddio categorïau ymateb i nodi yn fwy eglur lle y mae angen i ymgeisydd neu awdurdod penderfynu fynd i'r afael â'n pryderon. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu'r categorïau hyn er mwyn gwirio eu bod yn cael yr effaith y dymunir.
- Eglurder y cyngor: Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cael eglurder yn ein cyngor i ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio lle y caiff risgiau eu lleihau, effeithiau niweidiol eu hosgoi neu eu lleihau, a lle y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflenwi datblygiadau a lleoedd cynaliadwy. Mae CNC wedi gwneud cryn ymdrech i wella eglurder ei gyngor trwy gyflwyno categorïau ymateb, a ddylai helpu i leihau unrhyw amwysedd ynghylch sut y dylid dehongli cyngor CNC. Rydym hefyd wrthi'n datblygu cyfres o Nodiadau Canllaw Gweithredol i sicrhau bod ein cyngor yn gyson ac yn dryloyw.
- Tryloywder: Gall awdurdodau cynllunio lleol neu ymgeiswyr gysylltu yn uniongyrchol â rheolwyr achos cynllunio datblygiad CNC i drafod materion datblygu. Ymddengys bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.
- Amserau ymateb: Er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng amserau ymateb tybiedig ac amserau ymateb gwirioneddol, mae canllawiau CNC wedi'u rhoi ar waith i helpu ein rheolwyr achos cynllunio datblygiad i gofnodi, yn fwy cywir, yr achosion hynny lle y cytunwyd ar estyniad amser i ymateb.

Gellir gweld copi llawn o'n hadroddiad yma: Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru – Arolwg Cwsmeriaid 2016 (9 Ionawr 2017).[9]

Rydym yn bwriadu cynnal arolygon tebyg bob blwyddyn, ac yn gobeithio ehangu arolygon y dyfodol i ddatblygwyr sydd wedi defnyddio gwasanaeth cynghori ar gynllunio datblygiad CNC.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae 'Prosiect Gwella ar y Cyd' wedi'i sefydlu gyda phob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru, a chaiff hwn ei oruchwylio gan CNC a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan CNC ac awdurdodau cynllunio lleol yng ngogledd Cymru a

bydd yn canfod lle y mae angen ymgysylltiad gwell rhyngom ni ein hunain a'r awdurdodau hynny. Byddwn yn gweithio ar feysydd pwnc a nodwyd yn ystod 2017/18 a bydd datrysiadau yn cael eu peilota wedi hyn cyn eu rhoi ar waith yn fwy eang ledled Cymru.

# Atodiad 1 Ein rôl mewn cynllunio gwlad a thref

### Ein Gwasanaeth Cynllunio Datblygiad

Mae ein Datganiad Gwasanaeth Cynllunio Datblygu[1] yn nodi safonau'r gwasanaeth y gall cwsmeriaid ddisgwyl eu cael gennym pan fyddwn yn ymateb i ymgynghoriadau at ddibenion cynllunio a rheoli datblygiadau. Mae ein datganiad hefyd yn amlinellu'r math o wybodaeth y byddem yn disgwyl ei chael gan awdurdodau cynllunio a datblygwyr i'n galluogi ni i ddarparu ymatebion effeithiol ac amserol. Pan na fydd cynigion datblygu yn bodloni blaenoriaethau ymgynghori CNC, byddwn yn dibynnu ar gyngor safonol neu'n gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Wrth ddarparu ein cyngor, byddwn yn ceisio hwyluso dealltwriaeth well o'n rôl a'n cylch gwaith.

### Polisi cynllunio

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hysbysu'r gwaith o roi Deddf Cynllunio (Cymru) 2015[4] ar waith, a gallai hyn olygu ymateb i ymgynghoriadau ar ganllawiau a deddfwriaeth sy'n deillio o'r Ddeddf. Er enghraifft, trwy ddarparu cyngor ar y gwaith o ddatblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru a phrosesau cynllunio er mwyn hwyluso penderfyniadau effeithlon ac effeithiol. Byddwn hefyd yn darparu cyngor ar sut gall polisïau cynllunio alluogi datblygiadau cynaliadwy i gael eu cyflawni'n llwyddiannus trwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a thrwy annog darpariaeth system gynllunio gadarnhaol a chadarn sy'n galluogi ar gyfer Cymru.

### Cynllunio strategol

Fel y nodwyd yn ein Datganiad Gwasanaeth, ein nod yw cymryd rhan weithredol yn y broses o lunio cynlluniau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Rydym yn cynorthwyo trwy ddarparu:

- gwybodaeth a data sydd gennym yn ôl y gofyn; a
- chyngor integredig, cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfnodau perthnasol o'r broses cynllunio datblygiad; a/neu, mewn ymateb i ymgynghoriadau strategol, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Trwy ymgysylltu'n effeithiol yn y broses o lunio cynlluniau, gallwn helpu i lywio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf priodol. Dylai hyn leihau'r posibilrwydd o wrthdaro yn y dyfodol yn ystod cyfnod ymgeisio unigolyn a gwella'r gallu i ddarparu'r safleoedd datblygu a ddynodir mewn cynllun datblygu. Rydym yn credu bod cynlluniau datblygu cadarn yn hanfodol i ddarparu'r datblygiad cywir yn y lleoedd cywir.

### Rheoli datblygu

Cyfnodau yn y broses rheoli datblygu

At bwrpasau rheoli datblygu, ymgynghorir â CNC trwy gydol y broses, o ymgysylltu'n gynnar i gyflawni amodau a rhoi'r datblygiad ar waith.

Wrth ddarparu ein cyngor, byddwn yn ceisio lleihau effeithiau amgylcheddol niweidiol y datblygiad a hyrwyddo cyfleoedd amgylcheddol, sydd â buddion di-ri, er mwyn cyflawni datblygiad cynaliadwy.   Yn ein rôl cynghori, byddem hefyd yn ystyried ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau ehangach wrth ddarparu cyngor.

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd yn 2015 a 2016)

### Ymgynghoriad cyn-ymgeisio

Gwnaeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gyflwyno gofynion cyn-ymgeisio i mewn i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,[5] sy'n cynnwys dyletswydd newydd ar ymgeiswyr i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio gydag ymgyngoreion penodedig (Adran 61Z (4) o Ddeddf 1990). (Yn Adran 61Z (1) (a) o Ddeddf 1990, diffinnir ymgeisydd fel 'unigolyn sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio o fewn ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru'.)

Nodir y gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio yn Rhan 1A o Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)[1] ac mae'n berthnasol i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad 'mawr', boed hwnnw'n gais am ganiatâd llawn neu amlinellol, heb gynnwys y ceisiadau hynny o dan Adran 73 neu 73A o Ddeddf 1990, materion a gadwyd yn ôl, diwygiadau ansylweddol a mân ddiwygiadau sylweddol. Caiff datblygiad mawr fel y diffinnir yn Erthygl 2 ei ystyried yn gynnig cynllunio cymhleth. Caiff datblygiad ei ddiffinio fel datblygiad mawr pan fodlonir un neu ragor o'r meini prawf canlynol:

a) cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau;
b) datblygu gwastraff;
c) darparu tai annedd lle y mae —
    i. nifer y tai annedd a fydd yn cael eu darparu yn 10 neu ragor; neu
    ii. lle bydd y datblygiad yn cael ei wneud ar safle sydd ag arwynebedd o 0.5 hectar neu ragor, ac ni wyddys a yw'r datblygiad yn syrthio o fewn is-baragraff (c) (i);
d) darpariaeth adeilad neu adeiladau lle y mae arwynebedd y llawr sydd i gael ei greu gan y datblygiad yn 1,000 o fetrau sgwâr neu ragor; neu
e) ddatblygiad sy'n cael ei wneud ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu ragor.

### Ymgynghoriad cyn rhoi caniatâd cynllunio (cais)

Pan fydd cais dilys ar gyfer caniatâd cynllunio wedi'i gyflwyno, mae gan awdurdod cynllunio lleol rwymedigaeth statudol i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i gael ei farn (yn unol â 15A o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) a 54(2) o Ddeddf 2004).[5]

## Pryd i ymgynghori â CNC

Dylid ymgynghori â chyrff priodol yn unol â'r mathau o ddatblygiad a ddisgrifiwyd yn y tabl a nodwyd yn Atodlen 2 (Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, fel y'i diwygiwyd). (Cyfeiriwch at Dabl 1 yn yr atodiad hwn.)

Mae'r wybodaeth hon yn hysbysu ein Rhestr Wirio Blaenoriaethu,[7] sy'n blaenoriaethu'r ymgynghoriadau hynny y byddem yn disgwyl eu cael.

## Dyletswydd CNC i ymateb

### *Ymgynghoriad cyn-ymgeisio*

Ar ôl cael yr hysbysiad angenrheidiol a nodwyd gan Erthygl 2D o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd, mae gennym fel ymgynghorai arbenigol ddyletswydd i ddarparu 'ymateb o sylwedd' i'r ymgynghorydd o fewn cyfnod ragnodedig o 28 o ddiwrnodau, neu o fewn cyfnod sydd wedi'i gytuno yn ysgrifenedig â'r ymgeisydd (2E).

### *Ymgynghoriad cyn rhoi caniatâd cynllunio (cais)*

Ar ôl cael hysbysiad angenrheidiol, mae gennym ddyletswydd, fel ymgynghorai arbenigol, i ddarparu 'ymateb o sylwedd' i'r ymgynghorydd o fewn y cyfnod rhagnodedig o 21 o ddiwrnodau, neu o fewn cyfnod a gytunwyd yn ysgrifenedig â'r awdurdod cynllunio lleol (15A(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)).

## Gofynion ymateb o sylwedd

Mae ymateb o sylwedd yn golygu naill ai ymateb o sylwedd a anfonwyd at yr ymgynghorydd, gan gynnwys yr awdurdod cynllunio lleol a/neu'r ymgeisydd.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn-ymgeisio, mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i ni ddarparu ymateb o sylwedd i'r ymgynghorydd (ymgeisydd) yn unol ag un o'r pedwar categori a restrwyd.  Bydd CNC yn cadarnhau:

a) os nad oes ganddo unrhyw sylwadau; neu
b) os nad oes ganddo wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig gan felly atgyfeirio'r ymgeisydd i'n cyngor sefydlog cyfredol ar bwnc yr ymgynghoriad; neu
c) os oes ganddo bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig gan felly nodi sut y gellir mynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
d) os oes gennym bryderon ac y byddem yn gwrthwynebu i gais gael ei wneud am ganiatâd cynllunio ar yr un telerau neu delerau tebyg iawn, gan nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiadau hynny.

Ar ôl hynny, pan na fydd unrhyw ymgynghoriad cyn-ymgeisio wedi'i gynnal, byddem yn darparu ymateb o sylwedd i'r awdurdod cynllunio lleol (corff penderfynu) ynghylch cais cynllunio, i egluro:

e) nad oes gan CNC unrhyw sylwadau; neu
f) nad oes ganddo wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig a byddem yn atgyfeirio'r ymgeisydd i'n cyngor sefydlog cyfredol ar bwnc yr ymgynghoriad; neu
g) fod ganddo bryderon o ran y datblygiad arfaethedig a byddem yn nodi sut y gallai'r ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
h) fod ganddo bryderon ac y byddem yn gwrthwynebu i gais gael ei wneud am ganiatâd cynllunio ar yr un telerau neu delerau tebyg iawn ac yn nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiadau hynny.

Neu, pan fydd ymgynghoriad cyn-ymgeisio wedi'i gynnal, byddem yn ychwanegu dau gategori pellach o ymateb o sylwedd i egluro, fel ymgynghorai arbenigol:

i) nad oes gennym unrhyw sylwadau pellach o ran y datblygiad arfaethedig a byddem yn cadarnhau bod unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio yn parhau i fod yn berthnasol; neu
j) y byddem yn cynghori'r unigolyn sy’n ymgynghori ar unrhyw bryderon newydd o ran y datblygiad arfaethedig a byddem hefyd yn darparu ein rhesymau dros beidio â nodi'r pryderon hynny yn ystod y cyfnod ymateb cynharach i'r ymgynghoriad cyn-ymgeisio. Byddwn naill ai yn:
    1) egluro sut y gall yr ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
    2) cadarnhau ein bod yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ac yn nodi'r rhesymau dros ein gwrthwynebiad.

## Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

### Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

At ddibenion 62D o Ddeddf 1990, caiff datblygiad ei ystyried o arwyddocâd cenedlaethol os yw Rheoliadau 3–14 wedi'u bodloni (Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (2016)).[7]

### *Cydsyniadau eilaidd*

Mae Rheoliadau 2016 hefyd yn galluogi ymgeisydd i wneud cais am gydsyniadau eilaidd fel rhan o gais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Yn ein hymateb o sylwedd, dylai ein sylwadau ar bob cydsyniad eilaidd fod wedi'u nodi'n glir a'u hatodi i'r prif ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

## Pryd i ymgynghori â CNC

Mae Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016[8] yn cynnwys gofyniad statudol i ni gael ein hymgynghori ar yr ymgynghoriadau hynny sy'n syrthio i mewn i un neu ragor o'r categorïau a nodwyd ym meini prawf Atodlen 5 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 a lle y cawn ein rhestru fel ymgynghorai arbenigol, ac i ddarparu ymateb o sylwedd i'r rhain (cyfeiriwch at Dabl 1 yn yr atodiad hwn).

## Dyletswydd CNC i ymateb

### *Ymgynghoriad cyn-ymgeisio*

Pan fyddwn yn cael yr hysbysiad angenrheidiol, bydd gennym ddyletswydd, fel ymgynghorai arbenigol, i ddarparu 'ymateb o sylwedd' i'r ymgynghorydd o fewn y cyfnod rhagnodedig o 42 o ddiwrnodau, neu o fewn cyfnod a gytunwyd yn ysgrifenedig â'r ymgynghorydd (a nodwyd gan Erthygl 10 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016).

### *Ymgynghoriad cyn rhoi caniatâd cynllunio (cais)*

Pan fyddwn yn cael yr hysbysiad angenrheidiol, bydd gennym ddyletswydd, fel ymgynghorai arbenigol, i ddarparu 'ymateb o sylwedd' i'r ymgynghorydd o fewn y cyfnod rhagnodedig o 21 o ddiwrnodau, neu o fewn cyfnod a gytunwyd yn ysgrifenedig â'r ymgynghorydd (a nodwyd gan Erthygl 10 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016).

## Gofynion ymateb o sylwedd

Mae ymateb o sylwedd yn golygu naill ai ymateb o sylwedd i'r ymgynghorydd, gan gynnwys yr awdurdod cynllunio lleol, neu i Weinidogion Cymru a/neu ymgeisydd.

Yn ystod y cyfnod o ymgynghori cyn-ymgeisio ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 yn gofyn i ni ddarparu ymateb o sylwedd i'r ymgynghorydd (ymgeisydd) yn unol ag un o'r pedwar categori a ddarparwyd.  Bydd CNC yn cadarnhau:

a) os nad oes ganddo unrhyw sylwadau; neu
b) os nad oes ganddo wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, gan atgyfeirio'r ymgeisydd i'n cyngor sefydlog cyfredol ar bwnc yr ymgynghoriad; neu
c) os oes ganddo bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig, gan nodi sut y gellir mynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
d) os oes ganddo bryderon ac y byddem yn gwrthwynebu i gais gael ei wneud am ganiatâd cynllunio ar yr un telerau neu delerau tebyg iawn, gan nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiadau hynny.

Yn dilyn hyn, lle nad oes unrhyw ymgynghoriad cyn-ymgeisio ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi'i gynnal, gallwn ddarparu ymateb o sylwedd i'r ymgynghorwyr (Gweinidogion Cymru) i egluro:

a) nad oes gan CNC unrhyw sylwadau; neu
b) nad oes gan CNC unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig a byddem yn atgyfeirio Gweinidogion Cymru i'n cyngor sefydlog cyfredol ar bwnc yr ymgynghoriad; neu
c) fod gan CNC bryderon o ran y datblygiad arfaethedig a byddem yn nodi sut y gallai'r ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
d) fod gan CNC bryderon ac y byddem yn gwrthwynebu i gais gael ei wneud am ganiatâd cynllunio ar yr un telerau neu delerau tebyg iawn ac yn nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiadau hynny.

Pan fydd ymgynghoriad cyn-ymgeisio ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi'i gynnal, cyflwynir dau gategori pellach o ymateb o sylwedd i egluro, fel ymgynghorai arbenigol:

e) nad oes gennym unrhyw sylwadau pellach o ran y datblygiad arfaethedig a byddem yn cadarnhau bod unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio yn parhau i fod yn berthnasol; neu
f) Byddem yn cynghori Gweinidogion Cymru o unrhyw bryderon newydd o ran y datblygiad arfaethedig a byddem hefyd yn darparu ein rhesymau dros beidio â nodi'r pryderon hynny yn gynharach yn ystod y cyfnod ymateb i ymgynghoriad cyn-ymgeisio. Byddwn naill ai yn:
    1) egluro sut y gall yr ymgeisydd fynd i'r afael â'r pryderon hynny; neu
    2) cadarnhau ein bod yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ac yn nodi'r rhesymau dros ein gwrthwynebiad.

## Tabl 1 Pryd i ymgynghori â CNC

Mae gofynion ymgynghori manwl ar gyfer cyn-geisiadau a cheisiadau cynllunio dilys wedi'u nodi yng Ngorchmynion Gweithdrefn Datblygu Cymru.[1,2] Mae gan ymgynghorydd (ymgeisydd neu benderfynwr) ddyletswydd i ymgynghori â CNC i gael ei farn ar fathau o ddatblygiad fel y'u nodwyd a chyn gwneud penderfyniad cynllunio. Dangosir y mathau o ddatblygiad sy'n sbarduno ymgynghoriad â ni, yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio a chyn rhoi caniatâd cynllunio, yn y tabl isod.

| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd), Atodlen 2 Paragraff: | Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016, Atodlen 5, Paragraff: | Disgrifiad o'r datblygiad |
|---|---|---|
| K | G | Datblygiad sy'n ymwneud â, neu'n cynnwys, gweithrediadau mwyngloddio |
| M | I | Datblygiad sy'n ymwneud â chyflawni gwaith neu weithrediadau ar wely neu lannau afon neu nant |
| N | J | Datblygiad at ddiben puro neu storio olewau mwynol a'u deilliadau |
| O | L | Datblygiad sy'n ymwneud â chadw, trin neu gael gwared â charthffosiaeth, gwastraff masnachol, slyri neu slwtsh (heblaw am osod carthffosydd, adeiladu tai pwmpio mewn rhes o garthffosydd, adeiladu tanciau carthion a charthbyllau ar gyfer tai annedd sengl neu garafanau sengl neu adeiladau sengl lle na fydd mwy na deg unigolyn yn byw, gweithio nac yn ymgasglu ynddynt fel arfer, a gwaith atodol gan hynny) |
| P | M | Datblygiad sy'n ymwneud â defnyddio tir fel mynwent |
| Q | N | Datblygiad —<br>(i) mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu'n debygol o effeithio ar safle o'r fath; neu<br>(ii) mewn ardal sydd wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol/Gweinidogion Cymru gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ac sydd o fewn dau gilometr i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, y rhoddwyd hysbysiad ar ei gyfer, neu a ystyrir fel ardal sydd wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol/Gweinidogion Cymru gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, yn unol ag Adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) fel y mae'n gymwys i Gymru gan Adran 27AA o'r Ddeddf honno. |
| T | Q | Datblygiad o fewn 250 metr o dir sydd —<br>(i) yn cael, neu wedi cael ei ddefnyddio i ddodi sbwriel neu wastraff ar unrhyw adeg yn ystod y 30 o flynyddoedd cyn y cais perthnasol; a |

| | | |
|---|---|---|
| | | (ii) wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddibenion y ddarpariaeth hon |
| W | | Datblygiad —<br>(i) sy'n ymwneud â lleoli adeiladau newydd;<br>(ii) sy'n cynnwys addasiadau i adeiladau presennol a warchodir gan Erthygl 11 o Gyfarwyddeb 2012/18/UE; neu<br>(iii) sy'n newydd, gan gynnwys llwybrau trafnidiaeth, lleoliadau a ddefnyddir gan y cyhoedd ac ardaloedd preswyl ar bwys adeiladau presennol, lle gallai'r lleoliad neu'r datblygiad fod yn gyfrifol am, neu gynyddu'r risg o neu ganlyniadau damwain fawr |
| X | - | Datblygiad –<br>(i) ar dir sydd wedi'i ddynodi fel Parth Llifogydd C2;<br>(ii) sy'n ymwneud â, neu'n cynnwys, datblygiad gwasanaethau brys neu ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed ar dir sydd wedi'i ddynodi fel Parth Llifogydd C1 neu ar dir sydd wedi'i hysbysu i'r awdurdod cynllunio lleol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddiben y ddarpariaeth hon. |

Noder:

- Ym mharagraff (w), mae "awdurdod cymwys â rheolaeth dros beryglon damweiniau mawr" yn golygu mewn perthynas â safle niwclear perthnasol y Swyddfa dros Reoli Niwclear a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru yn gweithredu ar y cyd; fel arall, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru yn gweithredu ar y cyd; ac
- Ym mharagraff (x):

  Golyga "Parth Llifogydd C2" ardal o orlifdir heb seilwaith amddiffyn rhag llifogydd sylweddol;

  Golyga "Parth Llifogydd C1" ardal o orlifdir sydd wedi'i datblygu a chanddi seilwaith sylweddol, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd; ac

  Mae gan "datblygiad gwasanaethau brys" a "datblygiad sy'n agored iawn i niwed" yr un ystyr, fel y'u nodwyd yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012.

# Atodiad 2 Categorïau'r rhesymau dros ymateb y tu allan i'r amserlenni a ragnodwyd

### Tabl 2 Categorïau

Pan fydd ymateb o sylwedd wedi'i roi y tu allan i gyfnod statudol neu gyfnod estynedig o amser y cytunwyd arno neu phan na fydd ymateb wedi'i ddarparu, yna mae ein rhesymau dros achos wedi'u cipio yn y categorïau hynny a ddisgrifiwyd yn Nhabl 2, isod.

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Gwybodaeth annigonol** | Mae'r ymgynghorydd wedi darparu gwybodaeth annigonol i gefnogi ymgynghoriad ac i alluogi CNC i ymateb yn llawn. |
| **Cynnig datblygu cymhleth** | Arfarniad manwl o gynnig ar gyfer datblygiad mawr cymhleth lle y mae angen mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol sylweddol. Caiff rheolwyr achos cynllunio datblygu CNC eu cefnogi gan eu timau arbenigol. Gallai hyn gynnwys trafodaeth a/neu ymweliad â'r safle gyda'r ymgynghorydd (awdurdod cynllunio lleol neu ymgeisydd). Mae angen gwybodaeth cyn i ni ymateb. |
| **Newidiadau i'r busnes a chyfyngiadau adnoddau** | Caiff ymgynghoriadau eu rheoli gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg, lle y caiff y llwyth gwaith ei flaenoriaethu i sicrhau bod ymdrechion CNC yn cael eu canolbwyntio ar yr ymgynghoriadau hynny sy'n debygol o gyflwyno'r pryder niweidiol mwyaf neu'r budd mwyaf i'r amgylchedd. Ni chaiff ymgynghoriadau eu symud ymlaen o fewn amserlenni pan fydd newidiadau i fusnes CNC, gan gynnwys absenoldebau cyflogeion, pan na fydd timau arbenigol ar gael i ddarparu arbenigedd, a chyfyngiadau adnoddau a blaenoriaethau penodol. |
| **Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth** | Anawsterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) pan fydd y feddalwedd yn annigonol neu'n methu â gweithredu'n effeithlon, neu pan gaiff yr wybodaeth a ddaw i law ei phrosesu neu ei chofnodi'n anghywir. |

# Atodiad 3 Tablau crynhoi asesiadau

### Tabl 3 Crynodeb o asesiadau ar gyfer ymgynghoriad cyn-ymgeisio a’r ymatebion (Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd))

| Gorchymyn Datblygu | Cyf. Dangosydd | Dangosyddion Asesu | Cyfanswm | % yr ymatebion cyn-ymgeisio |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyn-ymgeisio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref | 1 | Nifer o adegau yr ymgynghorwyd â'r ymgynghorai arbenigol | **898** | **-** |
| | 2 | Nifer yr adegau y darparwyd ymateb o sylwedd | **898** | **100** |
| | 3 | Pan ddarparwyd ymateb o sylwedd, pan ymatebwyd:<br>o fewn y cyfnod statudol neu gyfnod arall y cytunwyd arno (28 o ddiwrnodau neu arall) | **831** | **93** |
| | 4 | o fewn y cyfnod statudol o 28 o ddiwrnodau (gan gynnwys cyfanswm 21 o ddiwrnodau) | **773** | **86** |
| | 5 | o fewn cyfnod arall o amser y cytunwyd arno | **58** | **7** |
| | 6 | o fewn cyfnod statudol o 28 o ddiwrnodau | **141** | **16** |
| | 7 | Nifer yr adegau pan gyflwynodd ymgynghorai arbenigol ymateb o sylwedd y tu allan i'r cyfnod a ragnodwyd (28 o ddiwrnodau) neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno | **67** | **7** |
| Rhesymau | 8 | Rhesymau dros ymateb y tu allan i gyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno:<br>*Gwybodaeth annigonol* | Noder:<br>Nid yw'r rhesymau hynny dros beidio ag ymateb i ymgynghoriadau cyn-ymgeisio (Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)) o fewn cyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno wedi'u hasesu eto ar gyfer y flwyddyn adrodd hon. | |
| | 9 | *Cynnig datblygu cymhleth* | | |
| | 10 | *Newidiadau i'r busnes a chyfyngiadau adnoddau* | | |
| | 11 | *Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth* | | |

### Tabl 4 Crynodeb o asesiadau ar gyfer ymgynghoriadau cyn caniatáu cais cynllunio a’r ymatebion (Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd))

| Gorchymyn Datblygu | Cyf. Dangosydd | Dangosyddion Asesu | Cyfanswm | % yr ymatebion i geisiadau |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriadau cyn rhoi caniatâd cynllunio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) | 12 | Nifer yr adegau yr ymgynghorwyd â'r ymgynghorai arbenigol | **7,193** | **-** |
| | 13 | Nifer yr adegau lle y darparwyd ymateb o sylwedd[a] | **7,093** | **100** |
| | 14 | Pan ddarparwyd ymateb o sylwedd, pan ymatebwyd:<br>o fewn y cyfnod statudol neu gyfnod arall y cytunwyd arno (21 o ddiwrnodau neu arall) | **6,750** | **95** |
| | 15 | o fewn y cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau | **6,149** | **87** |
| | 16 | o fewn cyfnod arall o amser y cytunwyd arno | **601** | **9** |
| | 17 | Nifer yr adegau lle y rhoddodd yr ymgynghorai arbenigol ymateb o sylwedd y tu allan i gyfnod a ragnodwyd (21 o ddiwrnodau) neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno | **343** | **5** |
| Rhesymau | 18 | Rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn gyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno:[b]<br>*Gwybodaeth annigonol* | **6** | **18** |
| | 19 | *Cynnig datblygu cymhleth* | **4** | **12** |
| | 20 | *Newidiadau i'r busnes a chyfyngiadau adnoddau* | **12** | **35** |
| | 21 | *Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth* | **12** | **35** |
| | 22 | *Cyfanswm* | **34** | **100** |

a. Noder: rydym wedi cael 100 o ymgynghoriadau i geisiadau a fydd yn cael eu hateb yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf, 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018

b. Mae 10% o ymatebion enghreifftiol wedi'u hasesu, sy'n gyfwerth â 34 o achosion.

**Tabl 6 Crynodeb o asesiadau ar gyfer ymgynghoriadau cyn-ymgeisio ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a'r ymatebion (Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016)**

<table>
<tr><th>Gorchymyn Datblygu</th><th>Cyf. Dangosydd</th><th>Dangosyddion Asesu</th><th>Cyfanswm</th><th>% yr ymatebion cyn-ymgeisio ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol</th></tr>
<tr><td rowspan="7">Ymgynghoriad cyn-ymgeisio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016</td><td>23</td><td>Nifer yr adegau yr ymgynghorwyd â'r ymgynghorai arbenigol</td><td>1</td><td>-</td></tr>
<tr><td>24</td><td>Nifer yr adegau y darparwyd ymateb o sylwedd</td><td>1</td><td>100</td></tr>
<tr><td>25</td><td>Pan ddarparwyd ymateb o sylwedd, pan ymatebwyd:<br>o fewn y cyfnod statudol (42 o ddiwrnodau) neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno</td><td>1</td><td>100</td></tr>
<tr><td>26</td><td>o fewn y cyfnod statudol o 42 o ddiwrnodau</td><td>1</td><td>100</td></tr>
<tr><td>27</td><td>o fewn cyfnod arall o amser y cytunwyd arno</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td>28</td><td>o fewn y cyfnod statudol o 42 o ddiwrnodau</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td>29</td><td>Nifer yr adegau y rhoddodd yr ymgynghorai arbenigol ymateb o sylwedd y tu allan i'r cyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Rhesymau</td><td>30</td><td>Rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn cyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno:<br>Gwybodaeth annigonol</td><td colspan="2" rowspan="4">Nodwch nad yw'r dangosydd hwn yn briodol ar gyfer y flwyddyn adrodd hon oherwydd cyflwynwyd ein hymatebion o fewn amser a ragnodwyd neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno.</td></tr>
<tr><td>31</td><td>Cynnig datblygu cymhleth</td></tr>
<tr><td>32</td><td>Newidiadau i'r busnes a chyfyngiadau adnoddau</td></tr>
<tr><td>33</td><td>Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth</td></tr>
</table>

**Tabl 7 Crynodeb o asesiadau ar gyfer ymgynghoriadau ar geisiadau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol a’r ymatebion (Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016)**

| Gorchymyn Datblygu | Cyf. Dangosydd | Dangosyddion Asesu | Cyfanswm | % yr ymatebion i geisiadau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyn rhoi caniatâd cynllunio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 | 34 | Nifer yr adegau yr ymgynghorwyd â'r ymgynghorai arbenigol | **1** | **-** |
| | 35 | Nifer yr adegau y darparwyd ymateb o sylwedd | **1** | **100** |
| | 36 | Pan ddarparwyd ymateb o sylwedd, pan ymatebwyd: o fewn y cyfnod statudol (21 o ddiwrnodau) neu gyfnod arall y cytunwyd arno | **0** | **0** |
| | 37 | o fewn y cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau | **0** | **0** |
| | 38 | o fewn cyfnod arall o amser y cytunwyd arno | **1** | **100** |
| | 39 | o fewn y cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau | **0** | **0** |
| | 40 | Nifer yr adegau pan gyflwynodd ymgynghorai arbenigol ymateb o sylwedd y tu allan i'r cyfnod a ragnodwyd (21 o ddiwrnodau) neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno | **1** | **0** |
| Rhesymau | 41 | Rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn cyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno: *Gwybodaeth annigonol* | Nodwch nad yw'r dangosydd hwn yn briodol ar gyfer y flwyddyn adrodd hon oherwydd cyflwynwyd ein hymatebion o fewn amser a ragnodwyd neu gyfnod arall o amser y cytunwyd arno. | |
| | 42 | *Cynnig datblygu cymhleth* | | |
| | 43 | *Newidiadau i'r busnes a chyfyngiadau adnoddau* | | |
| | 44 | *Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth* | | |

## Ffynonellau gwybodaeth


1. Rhif OS: 801 W10. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd yn 2015 a 2016)
2. Rhif OS 55 W.25 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016
3. Cynghori ar Gynllunio Datblygiad: Ein Datganiad Gwasanaeth ar gyfer Cyflawni: Ein dull o gefnogi'r gwaith o gynllunio datblygiad yng Nghymru Fersiwn 4.0 (15 Medi 2014)
4. Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Adran 37)
5. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (100A (2) a 100A (3))
6. Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol Gwlad a Thref 2004 (Adran 54)
7. Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymgynghoriadau Cynllunio (Mawrth 2015) (Rhestr Wirio Blaenoriaethu Rheoli Datblygiad)
8. Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016
9. Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru – Arolwg Cwsmeriaid 2016 (9 Ionawr 2017)

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru